



Crynodeb o Gyfarfod y Gwanwyn Sir y Fflint Ifanc

28/03/2025

Gweithdai'r bore

Archifau Gogledd Ddwyrain Cymru: Prosiect Archifau Creadigol

Cafodd Archifau Gogledd Ddwyrain Cymru (AGDdC) ei ffurfio ym mis Ebrill 2020 pan ddaeth Archifau Sir Ddinbych (Rhuthun) ac Archifau Sir y Fflint (Penarlâg) ynghyd i gynnig gwasanaeth ar y cyd. Mae'r tîm yn gyfrifol am gasglu cofnodion hanesyddol sy'n ymwneud â Gogledd-ddwyrain Cymru, eu cadw ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol a sicrhau eu bod yn hygyrch. Maen nhw'n dal ystod eang o gofnodion gwreiddiol, o ffotograffau i fapiau, llythyrau, papurau newydd, dyddiaduron, cofnodion yr heddlu, cofnodion ysgolion, cofnodion ystadau fel Erddig yn Wrecsam.

Gyda llwyddiant derbyn Cronfeydd Treftadaeth y Loteri Genedlaethol ar gyfer canolfan archifau newydd, a datblygiad Cynllun Gweithgareddau newydd cyffrous, mae AGDdC wrthi'n ymgynghori â gwahanol grwpiau i helpu i strwythuro'r cynllun wrth symud ymlaen. Rhoddodd Sir y Fflint Ifanc gyngor ar straeon allweddol i'w bywiogi, a'r hyn y gallai'r adeilad newydd ei gynnig.

Dolen: <https://www.agddc.cymru/>

Camau Gweithredu: Cyfeiriwch at yr adnodd hwn drwy gymunedau ysgolion. Gall hefyd fod yn ddefnyddiol iawn i feysydd pwnc.

Theatr Clwyd

O ganlyniad, i nodi dirywiad yn y cyfleoedd creadigol sydd ar gael i bobl ifanc, gwahoddwyd Theatr Clwyd i ddod i weld Sir y Fflint Ifanc i esbonio beth yw pwrpas Theatr Clwyd, rhaglenni ar-lein a rhaglenni wyneb yn wyneb. Mae'r sefydliad hefyd yn cydlyn llawer o brosiectau creadigol ar draws cymunedau yn Sir y Fflint ac yn edrych i ddatblygu pob llwybr ymhellach. Cyflwynodd Cadeirydd y Bwrdd Cynghori leuenctid gyda'r Cyfarwyddwr Cerddoriaeth, gan gynnwys cynrychiolwyr Sir y Fflint Ifanc mewn ymarferion datblygu creadigrwydd. Mae'r sesiwn hon hefyd yn cysylltu â'r hyfforddiant yr aeth Sir y Fflint Ifanc iddo, sef hyfforddiant yn seiliedig ar le. Mae pob un o'r grwpiau a'r gweithgareddau cymunedol y mae Theatr Clwyd yn eu cynnal yn rhan o'u rhaglen Perthyn.

Bwrdd Cynghori leuenctid: <https://www.theatrclwyd.com/cy/youth-advisory-board>

Cymryd Rhan - Grwpiau a gweithgareddau Perthyn: <https://www.theatrclwyd.com/cy/take-part/workshops>

Camau Gweithredu: Cynrychiolwyr Sir y Fflint Ifanc i hyrwyddo digwyddiadau ar draws ysgolion a lleoliadau pobl ifanc. Trefnu ymweliad i'r theatr newydd am daith. Archwilio'r cysylltiad rhwng Theatr Clwyd a dysgu'n seiliedig ar le ymhellach.

Cynllun y Cyngor

Rhannodd swyddogion o Dîm Cynllun y Cyngor yr Adolygiad Canol y Cynllun ar gyfer Cynllun y Cyngor. Mae Cynllun y Cyngor yn nodi'r canlynol:

Cyfeiriad y Cyngor Nodau'r Cyngor Blaenoriaethau'r Cyngor

Dros gyfnod o **5 mlynedd**. Mae Cynllun y Cyngor wedi'i rannu'n adrannau allweddol, gyda chamau gweithredu ar gyfer pob

adran i ddangos sut rydym yn mynd i wneud yr hyn rydym wedi bwriadu ei wneud. Roedd y sesiwn hon yn cynnig cyfle i bobl ifanc flaenoriaethu meysydd ac adolygu'r amcanion ar gyfer pob un. Cyflwynwyd llawer o enghreifftiau o sut y gall y Cyngor gyflawni'r amcanion a nodwyd.

Mae 3 maes blaenoriaeth newydd:

Pobl - Mae trigolion Sir y Fflint yn teimlo'n hapus, diogel ac iach

Llefydd - Mae Sir y Fflint yn lleoliad mae pobl eisiau byw, ymweld a gweithio ynddo

Ffyniant - Cymunedau a busnesau'n ffynnu yn Sir y Fflint

Camau Gweithredu: Sir y Fflint Ifanc i hyrwyddo datblygiad Cynllun y Cyngor gyda'u cyfoedion. Hyrwyddo'r cyngor a'i wasanaethau, bydd llenyddiaeth yn cael ei thrafod ymhellach yn ystod cyfarfod y prynhawn.

Cyfarfod y Prynawn

Cadeiriwyd Cyfarfod y Gwanwyn gan ddau unigolyn ifanc o Ysgol Uwchradd Cei Connah. Nodiadau o'r cyfarfod isod:

1. Croeso a Chyflwyniadau
2. Cofnodion a Chamau Gweithredu o'r cyfarfod diwethaf

Adolygiad o weithdai mis Chwefror gan gynnwys cyflwyniad gan Dîm Comisiynwyr Plant Cymru ar y CCUHP a'r adnodd Materion Misol. <https://www.complantcymru.org.uk/adnoddau/mater-y-mis/>

Archwiliodd Cenhadaeth Ddinesig Wrecsam y thema Perthyn, cyfrannu at flwyddyn perthyn y Genhadaeth a Strategaeth Perthyn Cyngor Sir y Fflint. Esboniodd tîm Datblygu Chwaraeon o Gwella am ddull yn seiliedig ar le, lle mae partneriaid yn cefnogi cymunedau i wella eu hardaloedd a'u hadnoddau, gan weithio gyda'i gilydd. Arweiniodd Miss Gray a phobl ifanc o Maes Hyfryd sesiwn datblygu Logo Sir y Fflint, gan gynhyrchu syniadau.

3. Cyfeillgarwch a Bwlio

Nodwyd y pwnc hwn o arolwg yr hydref fel pwnc i ganolbwyntio arno. Rhannwyd a thrafodwyd y data o adroddiad SHRN y sir. Cytunodd pawb fod yr ystadegau'n adlewyrchu'r darlun cyfredol, gyda chyfeillgarwch yn anodd dibynnu arno. Mae codi ymwybyddiaeth o fwlio yn ddefnyddiol ond nid yw'n atal ac ni fydd byth yn atal pob achos o fwlio. Mae goddefgarwch a pharch yn allweddol yn y negeseuon ynghylch cyfeillgarwch a bwlio. Caiff llyfrgelloedd ysgol mewn nifer o ysgolion eu hystyried yn fannau diogel ochr yn ochr â chefnogaeth i fyfyrwyr a staff rydych chi'n ymddiried

ynddynt, lle cynhelir clybiau a digwyddiadau cymdeithasol yn aml. Cafodd diffyg digwyddiadau cymdeithasol mewn ardaloedd lleol ei godi fel cyfraniad at y data cyfeillgarwch a bwlio.

Archwiliwyd llyfrgelloedd cymunedol hefyd i weld a oeddent yn modelu'r dull llyfrgell ysgol, y mae rhai yn ei wneud.

Camau Gweithredu: Ysgolion Hyrwyddo lechyd i gasglu dulliau llyfrgell gymunedol a chysylltu arweinwyr staff Llyfrgell â Sir y Fflint Ifanc a lleoliadau. Cynrychiolwyr ysgolion i ddysgu mwy am lyfrgelloedd ysgol a rhoi adborth i'r fforwm.

4. Ymwybyddiaeth Cyngor Sir y Fflint

Fel yr adlewyrchwyd yn arolwg yr Hydref, byddai croeso i fwy o ohebiaeth wedi'i anelu at bobl ifanc gan y cyngor i hyrwyddo'r hyn y mae'r cyngor yn ei wneud. Trafodwyd hyn hefyd yn sesiwn y bore ar Gynllun y Cyngor. Ni nodwyd bod cyfryngau cymdeithasol yn ddull effeithiol o ymgysylltu â phobl ifanc. Awgrymwyd a chroesawodd pawb yr awgrym o ddefnyddio'r ohebiaeth o fewn yr ysgol. Gallai hyn fod drwy'r bwletin wythnosol, negeseuon e-bost yr ysgol, hysbysiadau tiwtoriaid grŵp. Roedd sesiwn cynllun y cyngor y bore yma yn addysgiadol a gwrandawyd ar lawer o syniadau oedd gan bobl ifanc am flaenoriaethau'r cynllun.

Cam Gweithredu: Ysgolion Hyrwyddo lechyd i roi adborth ar hyn i'r Tîm Cyfathrebu ac archwilio sut y gellir rhoi hyn ar waith.

5. Logo Sir y Fflint Ifanc

Rhoddodd Miss Gray a phobl ifanc o Maes Hyfryd y wybodaeth ddiweddaraf am Logo Sir y Fflint Ifanc, gan egluro'r daith hyd yn hyn. Mae pobl ifanc wedi datblygu drafft electronig o'r logo yn seiliedig ar y syniadau a gynhyrchwyd yng ngweithdy mis Chwefror gan ysgolion. Mae'r logo wedi'i seilio ar rannu logo Sir y Fflint ac mae'n cynnwys logos grŵp, Makaton, megaffon, map o amlinelliad Sir y Fflint.

Cam Gweithredu: Gwahoddir cynrychiolwyr a lleoliadau Sir y Fflint Ifanc i roi adborth ac awgrymiadau dylunio pellach ar gyfer y logo drafft cyn diwedd y dydd ar 11 Ebrill, a'u cyflwyno i'r tîm graffeg. 3

6. Sir y Fflint sy'n Falch o'r Mislif

Mae Ysgolion Hyrwyddo lechyd wedi cael y wybodaeth ddiweddaraf am ddarpariaeth cynnyrch mislif, ymagwedd sy'n gyfeillgar i'r mislif a'r prosiect Cyfoedion sy'n Falch o'r Mislif. Yn ogystal ag ysgolion sy'n darparu mynediad at gynhyrchion mislif, bu cynnydd mewn lleoliadau cymunedol hefyd. Mae brandio wedi'i fabwysiadu o'r brand Cymru sy'n Falch o'r Mislif, gyda phosteri wedi'u datblygu ar gyfer y prosiect a lleoliadau'r cynnyrch. Mae mwy o ddigwyddiadau hyrwyddo cymunedol yn digwydd, gan gynnwys Partïon Cynhyrchion Mislif y gellir eu hailddefnyddio. Mae archebu cynhyrchion y gellir eu hailddefnyddio gartref ar gyfer pobl ifanc wedi'i oedi ar hyn o bryd er mwyn adolygu'r cynhyrchion, a gwahoddir pobl ifanc i gymryd rhan mewn grwpiau ffocws. Mae dau grŵp ffocws ysgol wedi bod hyd yn hyn, gyda mwy wedi'u trefnu i helpu i ddatblygu ymagwedd sy'n gyfeillgar i'r mislif mewn ysgolion. Mae'r un peth yn digwydd gyda'r gymuned. Rhannwyd a

chyfeiriwyd at y model Cyfoedion sy'n Falch o'r Mislif gan Plan International UK i ysgolion a grwpiau gymryd rhan ynddo.

Sir y Fflint sy'n Falch o'r Mislif <https://www.sirfflint.gov.uk/cy/Resident/Schools/Period-Proud-Flintshire/Home.aspx>

Plan International UK - Cyfoedion sy'n Falch o'r Mislif <https://plan-uk.org/become-period-proud-peer#signup>

Cam Gweithredu: Pobl ifanc i wirio bod posteri i fyny yn eu lleoliadau a hyrwyddo'r Adnodd Cyfoedion sy'n Falch o'r Mislif. Os hoffai unrhyw un fod yn rhan bellach o'r prosiect sirol hwn, cysylltwch â'r tîm Ysgolion Hyrwyddo lechyd.

7. Hyrwyddo'r Gymraeg

Cyflwynodd y Gwasanaeth Ieuenctid adnodd 'Cymraeg bob dydd', sydd wedi'i ddatblygu i gefnogi lleoliadau grwpiau Ieuenctid a'r Cyngor Ieuenctid. Mae'n archwilio ac yn hyrwyddo diwylliant a'r hyn y mae'r Gymraeg yn ei olygu. Canfu'r rhai a oedd yn bresennol fod hwn yn adnodd defnyddiol a gwnaethant ofyn iddo gael ei rannu â lleoliadau.

Camau Gweithredu: Gwasanaeth Ieuenctid i rannu'r adnodd electronig gyda Sir y Fflint Ifanc ac ysgolion. Pobl ifanc i fynd â chopi papur i leoliadau a grwpiau.

8. Arolwg 3 Mater

Yn ystod gwanwyn 2024, arweiniodd y Cyngor Ieuenctid arolwg 3 mater ar gyfer holl bobl ifanc Sir y Fflint i nodi'r tri phrif flaenoriaeth. Addysg, Cymuned ac Iechyd a lles meddwl oedd y rhain. Archwiliwyd y blaenoriaethau hyn ymhellach yn arolwg yr Hydref dan arweiniad Sir y Fflint Ifanc. Mae'r Cyngor Ieuenctid wedi rhyddhau arolwg 3 mater 2025 i weld a yw'r blaenoriaethau wedi aros yr un fath neu wedi newid. Mae'r Cyngor Ieuenctid hefyd yn chwilio am fwy o gynrychiolwyr. <https://www.smartsurvey.co.uk/s/KZHUNO/>

Camau Gweithredu: Cynrychiolwyr Sir y Fflint Ifanc i hyrwyddo'r arolwg 3 mater gyda chyfoedion a'r Cyngor Ieuenctid. Rhannu'r swyddi gwag ar y Cyngor Ieuenctid gyda chyfoedion.

9. Pride Ysgolion Sir y Fflint

Cynhelir y digwyddiad eleni ar 20 Mehefin yn Ysgol Uwchradd y Fflint rhwng 9.30am a 2.15pm, sef 'Just Be.' Bydd y wybodaeth ddiweddaraf a manylion pellach yn cael eu rhannu wrth i'r digwyddiad agosáu. Croeso i bawb, 30 o bobl ifanc fesul ysgol a Chyngor Ieuenctid.

Camau Gweithredu: Cynrychiolwyr i rannu'r dyddiad gyda chyfoedion a lleoliadau.

Unrhyw fater arall Na

Dyddiad y Digwyddiadau a'r Cyfarfodydd Nesaf:

Digwyddiadau y tu allan i oriau ysgol yn ystod mis Mai a mis Mehefin - gohebiaeth bellach i'w rhannu.

Cyfarfod yr Haf – Sesiwn y Bore 9.30am - 12.30pm Dyddiad a Lleoliad i'w gadarnhau